



## 29. RHODD MAMA NJINA (Stori o Kenya)

Casglu coed tân yn y fforest oedd Monica. Yn llawen, penliniodd y ferch ddengmlwydd oed islaw'r canghennau cysgodol gan ychwanegu'r brigau at ei phentwr. Uwchlaw, clywid trydar yr adar. Ond yna, heb unrhyw arwydd, digwyddodd rhywbeth a chwalodd ei holl ddiwrnod yn deilchion. Bu clec sydyn! 'Help!' sgrechiodd Monica wrth i'r ddaear gwympto o dan ei thraed. Digwyddodd y cyfan mor sydyn fel na allai wneud dim i'w hachub ei hun. Cyn iddi gael amser i feddwl dim yr oedd wedi plymio i waelod twll oedd dros ddwy fetr o ddyfnder.

Yn fyr ei gwynt ac mewn sioc, gorweddai'r ferch yno yn y tywyllwch a'r dagrau'n cronni yn ei llygaid. Teimlodd boen yn ei choes dde fel petai rhywun yn ei brathu â chyllell a theimlodd wlybanaeth gludiog yn llifo i lawr am ei ffêr. Syllodd yn anobeithiol i gyfeiriad y golau a ddeuai i mewn trwy'r agoriad oedd mor uchel uwch ei phen. Hyd yn oed pe bai'n holliach byddai wedi bod yn anodd dringo o'r twll. Ond, a hithau wedi brifo ei choes, roedd pethau'n ganmil anoddach.

Yn ffodus, clywodd cymdoges ei gwaedd am gymorth. Nid un i wastraffu amser mewn helbul oedd Mama Njina. Heb oedi, llamodd i'r twll at y ferch druan. Ond nid hwy oedd yr unig rai yn y twll. Yr oedd symudiad cyflym yn y dail a sŵn hisian. 'Aw! Mae rhywbeth yn fy mrathu!' Teimlodd y wraig y boen yn saethu trwyddi. 'Aw-w-w! Mae'n fy mrathu i hefyd!' llefodd Monica mewn mwy o banig nag erioed.

Yr oedd Mama Njina yn wraig gref. (Mae gwraedd Kenya fel arfer yn gryf oherwydd eu bod yn gwneud cymaint o waith trwm.) Gafaelodd yn Monica a'i gwthio i fyny tua'r wyneb. 'Tynna dy hun i fyny!' anogodd. Llwyddodd y ferch i gael ei llaw ar dywarchen o wair. Rywfodd, trwy ei hymdrechion gorffwyll hi ei hun a gwthio egnïol Mama Njina, llwyddodd i lusgo'i hunan allan ac yn ôl ar y llwybr.

Erbyn hyn yr oedd criw bychan o bobl wedi ymgynnull o amgylch y twll. 'O na! Mae hyn yn ddifrifol!' Ysgydwodd y pentrefwyr eu pennau wrth weld yr archoll dwfn yng nghoes Monica. Dim ond un dewis oedd – rhaid fyddai mynd â'r ferch i Ysbyty Kijabe.

Yn y cyfamser, yr oedd Mama Njina wedi llwyddo i'w llusgo'i hunan allan o'r twll. Wedi iddi ysgwyd y llwch oddi ar ei dillad teimlai'n weddol. Yr oedd ei choes yn boenus ond ddim digon drwg i'w rhwystro rhag paratoi swper. Wedi iddi lapio Monica mewn blanced a ffarwelio â'r ferch wrth iddi gychwyn am Kijabe, i ffwrdd â hi a'i gwynt yn ei dwrn i baratoi llond crochan o india-corn a ffa ar y tân.

Rai oriau'n ddiweddarach cyrhaeddodd Monica'r ysbyty ac aeth y meddygon a'r nyrsys ati ar unwaith i'w thrin. Yr oeddent i gyd yn Gristnogion a buan y sylweddolodd y ferch ei bod mewn dwylo diogel. I ddechrau, aed â hi i'r theatr lle cafodd y clwyf ei lanhau. Yna cafodd wely ar ward y plant. 'Dyma Alice a dyma Mwende,' meddai un o'r nyrsys wrth ei chyflwyno i'r plant eraill. Cyn bo hir sgwrsiai Monica'n llawen â'r plant eraill – a dywedodd wrthynt am ei hantur.

'Ydi dy fam yn aros hefo ti?' holodd Mwende.

Ysgydwodd Monica ei phen. 'Mae hi'n gorfod edrych ar ôl fy mrodyr a chwiorydd.'

'O, mae hynny'n golygu y cei di lawer o ymwelwyr,' gwenodd Mwende.

Ac yn wir i chi, y prynhawn canlynol, daeth perthnasau Monica i ymweld â hi. Ond er eu bod mor falch o'i gweld yr oedd ganddynt hefyd newydd drwg iddi.

Nid oedd unrhyw ffordd hawdd o dorri'r newydd iddi. Bu farw Mama Njina. Roedd hi wedi cael ei brathu gan un o nadroedd mwyaf gwenwynig Kenya – y *mamba* ddu.

'Aeth Mama Njina i orwedd ar ôl bwyta'i swper neithiwr,' meddai ei thaid. 'Aeth i gysgu a wnaeth hi ddim deffro.'

Yr oedd Monica wedi dychryn gormod i yngan gair. Mama Njina – wedi ei brathu gan y *mamba* ddu! Mama Njina – wedi marw! Daeth y

munudau erchyll hynny yn y twll yn ôl i'w chof. Dyna pryd y digwyddodd y peth. Ac nid Mama Njina oedd yr unig un i gael ei brathu. Oedd hyn yn golygu ei bod hithau'n mynd i farw hefyd?

Y noswaith honno, wedi i'w theulu ymadael, yr oedd Monica'n ferch fach ofnus iawn.

Wrth weld y pryder yn ei hwyneb, daeth Vivien, un o'r nyrsys, ati i'w chysuro.

'Paid â theimlo'n rhy drist am Mama Njina,' meddai'n dyner. 'Fe wnaeth hi rywbeth arbennig.'

'Fe fu hi farw wrth fy helpu i,' meddai Monica'n drist. 'Ond ... ond nawr falle byddaf innau'n marw hefyd ...' Pwyntiodd at ôl y brathiad ar ei choes.

Ysgydodd Vivien ei phen. 'Na, Monica, mae'r brathiad yna'n gwbl ddiwed. Fe wnaeth Mama Njina fwy na dy helpu'n unig. Fe achubodd dy fywyd. Fe aeth yr holl wenwyn o frathiad y neidr i'w chorff hi. Doedd dim yn weddill i dy niweidio di.'

Wrth i'r ofn dybryd gilio o lygaid y ferch aeth ymlaen â'i stori.

'Mae'n fy atgoffa o'r hyn a wnaeth Iesu pan gymerodd ef holl wenwyn ein pechodau ar y groes fel na all marwolaeth ein niweidio mwyach.'

Yn feddylgar, astudiodd Monica'r brathiad ar ei choes. Nid oedd yn brifo o gwbl nawr, a diolch i Mama Njina fyddai dim rhaid iddi ddiodef mwy. A dyma hi'r nyrs yma'n dweud wrthi na allai marwolaeth ei niweidio chwaith – diolch i Iesu.

Edrychodd i fyny a gwên fawr ar ei hwyneb.

'Mae Iesu'n cynnig rhodd o fywyd tragwyddol i ni,' meddai Vivien yn addfwyn. 'A'r cwbl sy'n rhaid i ni ei wneud yw ei derbyn.'

**HYD:** 5 munud

**NEGES:** Nes i Iesu ein gollwng yn rhydd o afael pechod roedd yr holl hil ddynol wedi ei chondemnio i farwolaeth. Nawr, oherwydd yr hyn a wnaeth, bydd y rhai sy'n ymddiried ynddo yn cael byw gydag ef am byth.

**DARLLEN:** Rhufeiniaid 5: 6–8,17; 6: 20–23